# MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

## Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod yn rhaid i Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei osod ac i Gynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw un o offerynnau statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Gosodwyd Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018 ("Rheoliadau 2018") gerbron Dau Dŷ'r Senedd ar 11 Rhagfyr 2018. Mae'r rheoliadau i'w gweld yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/3Mb6uXHL

## Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i Amcan

3. Amcan Rheoliadau 2018 yw gwneud newidiadau bach a thechnegol i Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017, Rheoliadau Gweithgareddau Petrolewm Alltraeth (Cadwraeth Cynefinoedd) 2001 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae angen y newidiadau er mwyn sicrhau y bydd y ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â chadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau yn parhau i fod yn weithredadwy yn y Deyrnas Unedig (DU) ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae'r offeryn yn ymdrin â diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n codi oherwydd bod y DU ymadael â'r UE. Diben Rheoliadau 2018 yw diogelu a gwarchod y gyfundrefn polisi bresennol.

4. Yn unol â'r amcan hwn, mae Rheoliadau 2018 yn diwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("y Ddeddf") o ran Cymru a Lloegr.
   Mae Rheoliadau 2018 yn diwygio adran 27 o Ddeddf 1981, sy'n diffinio "wild birds". Ar hyn o bryd diffinnir "wild bird" yn Neddf 1981 fel rhywogaeth a geir neu sy'n ymweld â thiroedd aelod-wladwriaeth Ewropeaidd. Ar ôl ymadael â'r UE, byddai hyn yn golygu na fyddai rhywogaethau adar gwyllt a geir yn y DU, ond nid mewn mannau eraill o'r UE, yn cael eu gwarchod bellach. Er mwyn sicrhau bod rhywogaethau adar gwyllt o'r fath yn parhau i gael eu gwarchod, caiff y diffiniad ei ddiwygio er mwyn ychwanegu'r DU. Bydd rhywogaethau adar gwyllt a geir neu sy'n ymweld â'r DU neu â thiroedd aelod-wladwriaeth Ewropeaidd yn rheolaidd yn parhau i gael eu gwarchod.

5. Y nod yw i Reoliadau 2018 sicrhau bod modd parhau i weithredu camau gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau y darperir ar eu cyfer gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC) a'r Gyfarwyddeb Adar Gwyllt (Cyfarwyddeb 2009/147/EC Senedd Ewrop a'r

Cyngor) a Deddf 1981 ar ôl y diwrnod ymadael. Gweithredir y Cyfarwyddebau yn y DU gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 (“Rheoliadau 2017”). Nid oes unrhyw newid i bolisi. Mae'r newidiadau’n sicrhau bod Rheoliadau 2018 a Deddf 1981 yn parhau i fod yn weithredol ar ôl y diwrnod ymadael.

**Darpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS**

6. Mae Rheoliadau 2018 yn newid y darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf:

Yn adran 27 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981(**1**), fel y mae'n gymwys i Gymru a Lloegr, yn y diffiniad o “wild bird”, ar ôl “visitor to”, mewnosoder “the United Kingdom or”.

7. Mae'r newidiadau a bennir ym mharagraff 5 yn ymwneud â phwnc sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a allai fod yn destun Bil gan y Cynulliad Cenedlaethol.

8. Mae Adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ynghylch unrhyw bwnc ac eithrio'r rhai sydd wedi'u cadw'n ôl yn benodol i Senedd y DU yn Atodlen 7A i'r Ddeddf. Mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau.

**Pam mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

9. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr i gywiro'r cyfeiriad dan sylw yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i'r OS hwn yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws Cymru a Lloegr sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
18 Rhagfyr 2018

(**1**) 1981 p. 69. Diwygiwyd y diffiniad o “wild bird” yn adran 27 o ran Cymru a Lloegr gan O.S. 2004/1487.